

Cymraeg yn y Gweithle: Naturally Scrumptious

Mae Naturally Scrumptious yn delicatessen a chaffi yn Aberaeron. Er nad yw'r perchennog Stuart Boydell yn siarad Cymraeg, roedd yn hapus i ddangos fod ei fusnes yn gefnogol o'r Gymraeg. Mae arwydd 'Ar Agor' nawr ar ddrws y deli, ac roedd Stuart wedi manteisio ar gyfieithu am ddim, a'i trefnwyd gan y Swyddog Cymraeg mewn Busnes lleol, er mwyn cyfieithu'r fwydlen yn y caffi i'r Gymraeg.

Pa wasanaeth/au roedd eich mudiad wedi ei dderbyn gan eich swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Busnes?

Arwyddion drws, posteri wal gydag ymadroddion defnyddiol, a diweddariadau cyson am wersi Cymraeg, digwyddiadau a Dydd Miwsig Cymru. Roedd hefyd wedi hyrwyddo ein cyfieithiad o'r fwydlen ar y cyfryngau cymdeithasol.

Oedd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes yn rhywbeth roeddech chi wedi ei ystyried o'r blaen?

Oedd, er bod gennym ni rhai siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y deli, rydym ni am ei gynnwys fwy, gan fod nifer o'r bobl leol, a nifer cynyddol o dwristiaid ac ymwelwyr yn mwynhau defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ryngweithio gyda ni. Ac roedd cyfieithu'r fwydlen wedi bod yn syniad roedden ni wastad am ei gyflwyno.


Beth yw eich cefndir chi, a beth oedd eich teimladau am ddefnyddio'r iaith yn eich busnes cyn gweithio gyda'ch swyddog lleol?

Symudais i Orllewin Cymru g mlynedd yn ôl, er bod rhai aelodau o'r teulu wedi bod yma cyn hynny. Mae rhai ohonyn nhw â gallu sylfaenol, er yn gallu deall mwy na maen nhw'n gallu siarad neu ddarllen. Mae fy chwaer yn gwella'i Chymraeg gyda chefnogaeth gweithwyr a chwsmeriaid. Mae 'da fi llai o hyder gyda'r iaith ond rwy yn ceisio cyfarch a diolch i gwsmeriaid yn y Gymraeg.

Beth oedd eich profiad o'r gwasanaeth?

Ardderchog, mae Owain yn gyfeillgar ac yn berson hawdd i weithio gyda. Mae e wedi darparu ymateb cyflym i unrhyw ymholiadau, ac rydym ni'n cael ein hannog, ac yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y deli.

Roedd y gwasanaeth yn syml ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Doedd dim pwysau o gwbl, ac roedd wedi ei deilwra i'n gofynion ni. Mae'n wasanaeth buaswn yn ei argymhell yn gryf i fusnesau eraill



Ydych chi wedi cael ymateb ffafriol wrth ddefnyddio'r Gymraeg lle gallwch chi yn eich busnes?

Do, ers argraffu'r bwydlenni mae cwsmeriaid yn eu defnyddio wrth archebu, hyd yn oed wrth siarad gyda staff sydd ddim yn siarad Cymraeg. Maen nhw'n mwynhau cael y cyfle i ddarllen y fwydlen yn y Gymraeg.

Mae rhai cwsmeriaid yn dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r fwydlen a thrafodaethau gyda'r gweithlu fel cyfle i ymarfer eu Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg lleol yn gwerthfawrogi'r ymdrech rydym ni'n ei wneud i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Rydym ni'n annog y gweithwyr i gyd i gyfarch a diolch cwsmeriaid yn y Gymraeg ac i ddysgu mwy os yn bosib. Rydym ni'n defnyddio mwy o Gymraeg ar ein tudalen Facebook, er yn sylfaenol iawn e.e. Adeg y Nadolig; Diolch yn fawr, Nadolig Llawen, Blwyddyn Newydd Dda.

Yn y dyfodol rydym ni'n golygu creu llyfrynnau bwydlen newydd, bydd yn rhoi'r cyfle i ni ychwanegu cyfieithiad Cymraeg am wybodaeth arall neu hyrwyddiadau yn y caffi a'r deli. Bydda'i mewn cysylltiad eto pan mae'r rhain yn barod er mwyn trefnu fwy o waith cyfieithu.

